

2018 Rhif (Cy.)

**HYSBYSU YNGHYLCH
MARWOLAETHAU, EU
HARDYSTIO A’U
COFRESTRU, CYMRU**

**Rheoliadau Ardystio Marwolaethau
(Archwilwyr Meddygol) (Cymru)
2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag archwilwyr meddygol a benodir gan Fyrddau Iechyd Lleol i gyflawni’r swyddogaethau a roddir iddynt gan, neu o dan, Bennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (“y Ddeddf”).

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i delerau amrywiol gael eu cynnwys yn nhelerau penodi archwilwyr meddygol.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi tâl i archwilwyr meddygol.

Mae rheoliad 5 yn gosod y gweithdrefnau i’w dilyn pan na fo archwilydd meddygol yn ddigon annibynnol, o fewn ystyr y rheoliad hwnnw.

Mae rheoliad 6 yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i archwilwyr meddygol at y swyddogaethau a osodir gan reoliadau a wneir o dan adran 20 o’r Ddeddf.

Mae rheoliad 7 hefyd yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i archwilwyr meddygol sy’n ymwneud â gwybodaeth am iechyd a diogelwch (o fewn ystyr y rheoliad hwnnw) i fodloni gofynion o dan Reoliadau Amlogi (Cymru a Lloegr) 2008 mewn perthynas â marwolaeth.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar y wefan ar www.llyw.cymru.

2018 Rhif (Cy.)

**HYSBYSU YNGHYLCH
MARWOLAETHAU, EU
HARDYSTIO A’U
COFRESTRU, CYMRU**

Rheoliadau Ardystio Marwolaethau
(Archwilwyr Meddygol) (Cymru)
2018

Gwnaed ***

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(4) a 176(3) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009(1), yn gwneud y rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardystio Marwolaethau (Archwilwyr Meddygol) (Cymru) 2018 a deuant i rym ar XX.

(2) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “awdurdod penodi” (“*appointing authority*”) yw’r Bwrdd Iechyd Lleol a benododd yr archwilydd meddygol;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009;

(1) 2009 p. 25. Mae’r pŵer yn adran 19(4) o’r Ddeddf yn arferadwy gan “the appropriate Minister” a ddiffinnir o dan adran 19(6) o’r Ddeddf, o ran Cymru, fel Gweinidogion Cymru.

ystyr “Rheoliadau adran 20” (“*the section 20 Regulations*”) yw unrhyw reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 20(1) o’r Ddeddf (tystysgrif feddygol o achos y farwolaeth); ac

ystyr “swyddogaeth berthnasol” (“*relevant function*”) yw swyddogaeth i archwilwyr meddygol o dan reoliad 6 neu 7 neu o dan Reoliadau adran 20.

Telerau penodi archwilwyr meddygol

3.—(1) Rhaid i delerau penodi archwilydd meddygol gynnwys y telerau ym mharagraffau (2) i (5).

(2) Bod y penodiad yn cael ei derfynu ar unwaith os bydd yr archwilydd meddygol yn peidio â bod yn ymarferydd meddygol cofrestredig.

(3) Bod rhaid i’r archwilydd meddygol fod wedi dilyn unrhyw hyfforddiant perthnasol a bennir gan yr Archwilydd Meddygol Cenedlaethol cyn ei benodi’n archwilydd meddygol.

(4) Y caiff yr awdurdod penodi derfynu’r penodiad pan fo’r awdurdod o’r farn nad yw’r archwilydd meddygol yn berson addas a phriodol i fod yn archwilydd meddygol, ar ôl ystyried unrhyw safonau a lefelau perfformiad a ddisgwylir gan archwilwyr meddygol fel y’u cyhoeddir gan yr Archwilydd Meddygol Cenedlaethol.

(5) Bod rhaid i’r archwilydd meddygol, ar gais yr awdurdod penodi, arfer unrhyw swyddogaeth berthnasol mewn perthynas â marwolaeth—

- (a) a ddigwyddodd y tu allan i ardal yr awdurdod penodi; neu
- (b) pan na fo unrhyw wybodaeth ar gael o ran lleoliad y farwolaeth, y cafodd corff y person ymadawedig ei ganfod y tu allan i ardal yr awdurdod penodi mewn cysylltiad â hi.

(6) Unrhyw delerau eraill y cytunir arnynt gan yr awdurdod penodi a’r archwilydd meddygol.

Rhoi tâl neu dalu treuliau, ffioedd etc. i archwilwyr meddygol

4. Caiff awdurdod penodi roi cymaint o dâl, neu dalu cynifer o dreuliau, ffioedd, iawndal am derfynu penodiad, pensiynau, lwfansau neu roddion ariannol ag y mae’n eu dyfarnu i bob archwilydd meddygol y mae’n ei benodi.

Y weithdrefn ar gyfer sicrhau bod archwilwyr meddygol yn ddigon annibynnol

5.—(1) Pan na fo archwilydd meddygol yn ddigon annibynnol mewn perthynas â marwolaeth y mae gan yr archwilydd ddyletswydd neu bŵer i arfer unrhyw

swyddogaeth berthnasol mewn cysylltiad â hi, rhaid i'r archwilydd meddygol—

- (a) ymatal rhag arfer unrhyw swyddogaeth berthnasol mewn perthynas â'r farwolaeth;
- (b) gwneud cofnod o'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff (4) sy'n gymwys mewn perthynas â'r farwolaeth; ac
- (c) atgyfeirio'r farwolaeth at archwilydd meddygol arall.

(2) Pan fo archwilydd meddygol ("X") yn atgyfeirio marwolaeth at archwilydd meddygol arall ("Y"), rhaid i X ddarparu'r canlynol i Y—

- (a) copi o'r cofnod a wneir yn unol â pharagraff (1)(b);
- (b) unrhyw wybodaeth y mae X wedi ei chael sy'n ymwneud â'r farwolaeth; ac
- (c) unrhyw gofnodion a wneir gan X mewn cysylltiad ag unrhyw swyddogaeth berthnasol sydd wedi ei harfer mewn perthynas â'r farwolaeth.

(3) At ddiben paragraff (1), nid yw archwilydd meddygol yn ddigon annibynnol mewn perthynas â marwolaeth pan fo un neu ragor o'r amgylchiadau ym mharagraff (4) yn gymwys ar adeg y farwolaeth.

(4) Yr amgylchiadau yw—

- (a) mai'r archwilydd meddygol yw neu oedd priod, cyn-briod, partner sifil neu gyn-bartner sifil y person ymadawedig ("Y") neu'r ymarferydd perthnasol a fu'n gweini ar y claf ("YP");
- (b) bod neu y bu'r archwilydd meddygol yn cyd-fyw ag Y neu YP fel priod neu bartner sifil neu ei fod wedi bod yn cyd-fyw ag Y neu YP felly ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dod i ben â'r farwolaeth;
- (c) bod neu y bu'r archwilydd meddygol yn perthyn yn agos i Y neu YP;
- (d) y bu'r archwilydd meddygol yn gweini ar Y yn ystod ei salwch olaf;
- (e) bod neu y bu'r archwilydd meddygol yn bartner, yn gyflogwr, yn gyflogai neu'n gysylltai i YP;
- (f) y bu gan yr archwilydd meddygol fuddiant ariannol yn ystad Y; neu
- (g) y bu'r archwilydd meddygol mewn unrhyw gysylltiad, perthynas neu gyswllt ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol arall ag Y neu YP i'r graddau bod amheuaeth resymol yn codi ynghylch gwrthrychedd yr archwilydd i gyflawni'r swyddogaethau.

(5) Ym mharagraff (4)—

ystyr “ymarferydd perthnasol a fu’n gweini” (“*relevant attending practitioner*”) yw ymarferydd a fu’n gweini ar glaf sydd, mewn perthynas â’r farwolaeth, wedi—

- (a) llunio tystysgrif ymarferydd a fu’n gweini ar y claf yn unol â Rheoliadau adran 20; neu
- (b) ceisio cyngor yr archwilydd meddygol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau’r ymarferydd o dan Reoliadau adran 20; ac

ystyr “yn perthyn yn agos” (“*closely related*”) yw rhiant, chwaer, hanner chwaer, brawd, hanner brawd, mab, merch, ewythr, modryb, tad-cu/taid neu fam-gu/nain, wŷr neu wyres, cefnder cyfan neu gyfnither gyfan, nai, nith, rhiant yng nghyfraith, wŷr neu wyres yng nghyfraith, chwaer yng nghyfraith, brawd yng nghyfraith, mab yng nghyfraith neu ferch yng nghyfraith neu mewn llysberthynas.

(6) Mae cyfeiriadau at lysberthynas a theulu yng nghyfraith ym mharagraff (5) i gael eu darllen yn unol ag adran 246 (dehongli cyfeiriadau statudol at lysblant etc.) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(1).

Swyddogaethau ychwanegol archwilwyr meddygol

6.—(1) Mae gan bob archwilydd meddygol y swyddogaethau a ganlyn—

- (a) rhoi cyngor i ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â swyddogaethau ymarferwyr a fu’n gweini ar gleifion(2) o dan Reoliadau adran 20;
- (b) rhoi cyngor i uwch grwner i’w gynorthwyo i benderfynu a oes dyletswydd i ymchwilio i farwolaeth o dan adran 1 o’r Ddeddf (dyletswydd i ymchwilio i farwolaethau penodol);
- (c) bod yn rhan o’r gwaith o sefydlu, adolygu a diweddarau protocolau lleol;
- (d) cadw cofnodion mewn perthynas â marwolaethau y mae’r archwilydd meddygol wedi arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â hwy o dan Reoliadau adran 20;
- (e) rhoi cyngor i Fwrdd Iechyd Lleol mewn perthynas â’r adolygiadau marwolaeth cyffredinol y maent yn eu cynnal;
- (f) wrth fynd ati i arfer swyddogaeth berthnasol, adrodd ar unrhyw bryderon difrifol a nodir

(1) 2004 p. 33.

(2) Gweler adran 20(1)(a) o’r Ddeddf: mae “attending practitioner” yn ymarferydd meddygol cofrestredig a fu’n gweini ar yr ymadawedig cyn ei farwolaeth.

mewn cysylltiad â llywodraethiant clinigol, diogelwch cleifion neu wyliadwriaeth iechyd cyhoeddus, yn unol ag unrhyw drefniadau adrodd lleol perthnasol;

- (g) cael gwybodaeth am ganlyniad unrhyw adrodd y cyfeirir ato yn is-baragraff (f);
- (h) rhoi gwybodaeth a llunio adroddiadau sy'n ymwneud ag arfer swyddogaeth berthnasol gan yr archwilydd meddygol i fodloni unrhyw gais a wneir gan neu ar ran—
 - (i) yr awdurdod penodi at ddiben swyddogaethau monitro'r awdurdod o dan adran 19(2)(b) o'r Ddeddf (archwilywyr meddygol);
 - (ii) Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth o dan erthygl 3 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(1).
 - (iii) Bwrdd Diogelu(2) at ddibenion swyddogaethau'r Bwrdd o dan reoliad 4 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015(3) (adolygiadau ymarfer);
 - (iv) y Bwrdd Ystadegau; neu
 - (v) yr Archwilydd Meddygol Cenedlaethol;
- (i) nodi unrhyw anghenion hyfforddi sydd gan ymarferwyr meddygol cofrestredig sy'n ymarfer yn ardal yr awdurdod penodi mewn perthynas â swyddogaethau ymarferwyr a fu'n gweini ar gleifion o dan Reoliadau adran 20; a
- (j) parhau i adolygu perfformiad a gwasanaeth yr archwilydd meddygol ei hunan, gan gynnwys drwy gymryd rhan mewn archwiliadau gan gymheiriaid ac adolygiadau gwasanaeth.

(2) Ym mharagraff (1)—

ystyr “Bwrdd Ystadegau” (“*Statistics Board*”) yw'r Bwrdd a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007(4)

(1) O.S. 2009/2058 (Cy. 177).

(2) Caiff Byrddau Diogelu eu sefydlu gan bartneriaid arweiniol y Bwrdd Diogelu mewn perthynas ag ardal y Bwrdd Diogelu yn unol ag adran 134(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”). Mae partneriaid arweiniol Byrddau Diogelu wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1357 (Cy. 131)) o blith y rhestr o bartneriaid Byrddau Diogelu a nodir yn adran 134(2) o'r Ddeddf.

(3) O.S. 2015/1466 (Cy. 160).

(4) 2007 p. 18.

(sefydlu) ac mae'n cynnwys ei frandiau sef y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig; ac

ystyr "protocol lleol" ("*local protocol*") yw memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng archwilywr meddygol a phersonau y mae eu swyddogaethau yn gysylltiedig â swyddogaethau archwilywr meddygol neu ymarferwyr a fu'n gweini ar gleifion o dan Reoliadau adran 20, sy'n nodi'r trefniadau gweinyddol sydd i fod yn gymwys i hwyluso'r gwaith o ardystio marwolaethau yn ardal yr awdurdod penodi mewn modd effeithlon ac amserol.

Swyddogaethau ychwanegol archwilywr meddygol sy'n ymwneud â Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

7.—(1) Mae gan archwilydd meddygol y swyddogaethau a ganlyn mewn perthynas â marwolaeth—

- (a) archwilio corff person ymadawedig, neu gyfarwyddo unigolyn arall i wneud hynny ar ran yr archwilydd, at ddiben casglu gwybodaeth iechyd a diogelwch;
- (b) cael gwybodaeth iechyd a diogelwch, ei hystyried a'i dosbarthu;
- (c) llenwi ffurflenni neu ddogfennaeth arall sy'n ymwneud â gwybodaeth iechyd a diogelwch at ddiben yr archwilydd neu unrhyw berson arall sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 mewn perthynas â'r farwolaeth; a
- (d) at ddiben yr archwilydd meddygol neu unrhyw berson arall sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 mewn perthynas â'r farwolaeth.

(2) Ni chaiff archwilydd meddygol benodi unigolyn arall i gynnal archwiliad allanol o gorff y person ymadawedig ar ei ran at ddiben paragraff (1) ond—

- (a) pan fo gan yr unigolyn arbenigedd addas ym marn yr archwilydd; a
- (b) pan na fo'r amgylchiadau ym mharagraff (3) yn gymwys.

(3) Yr amgylchiadau yw—

- (a) mai'r unigolyn oedd priod, cyn-briod, partner sifil neu gyn-bartner sifil y person ymadawedig ("Y");
- (b) y bu'r unigolyn yn cyd-fyw ag Y fel priod neu bartner sifil ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dod i ben â'r farwolaeth;

- (c) y bu'r unigolyn yn perthyn yn agos i Y;
- (d) y bu'r unigolyn yn gweini ar Y yn ystod ei salwch olaf;
- (e) y bu'r unigolyn yn bartner, yn gyflogwr, yn gyflogai neu'n gysylltai i Y;
- (f) y bu gan yr unigolyn fuddiant ariannol yn ystad Y; neu
- (g) bod neu y bu'r unigolyn mewn unrhyw gysylltiad, perthynas neu gyswllt ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol arall ag Y i'r graddau bod gan yr archwilydd meddygol perthnasol amheuaeth resymol ynghylch gwrthrychedd yr ymarferydd i gynnal archwiliad allanol o Y.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “grŵp perygl” (*“hazard group”*) yw un o'r pedwar grŵp a bennir ym mharagraff 2(2) o Atodlen 3 i Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002(1);

ystyr “gwybodaeth iechyd a diogelwch” (*“health and safety information”*) yw'r wybodaeth a ganlyn—

- (a) a oes unrhyw fewnblaniad neu ddyfais feddygol yng nghorff y person ymadawedig a allai fod yn beryglus;
- (b) y math o unrhyw fewnblaniad neu ddyfais o'r fath;
- (c) pan fo mewnblaniad ymbelydrol yng nghorff y person ymadawedig, y dyddiad y cafodd y mewnblaniad ei roi yn y corff;
- (d) a oedd y person ymadawedig yn dioddef o haint drosglwyddadwy yn union cyn y farwolaeth; ac
- (e) llwybr trosglwyddo a grŵp perygl unrhyw haint o'r fath;

ystyr “yn perthyn yn agos” (*“closely related”*) yw rhiant, chwaer, hanner chwaer, brawd, hanner brawd, mab, merch, ewythr, modryb, tad-cu/taid neu fam-gu/nain, wŷr neu wyres, cefnder cyfan neu gyfnither gyfan, nai, nith, rhiant yng nghyfraith, wŷr neu wyres yng nghyfraith, chwaer yng nghyfraith, brawd yng nghyfraith, mab yng nghyfraith neu ferch yng nghyfraith neu mewn llysberthynas.

(5) Mae cyfeiriadau at lysberthynas a theulu yng nghyfraith ym mharagraff (4) i gael eu darllen yn unol ag adran 246 (dehongli cyfeiriadau statudol at lysblant etc.) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(2).

(1) O.S. 2008/2841.
 (2) 2004 p. 33.

Vaughan Gething
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a
Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad